



DWP

Department for
Work and Pensions

Adran Gwaith
a Phensiynau

Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad

Gwella trosglwyddiadau
ac ymdrin â
chronfeydd pensiwn
bach

2 Gwella trosglwyddiadau ac ymdrin â chronfeydd pensiwn bach

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau	3
Cyflwyniad	5
Crynodeb gweithredol ac ymateb y Llywodraeth	6

Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau

Mae proses gofrestru awtomatig yn dechrau. O'r mis hwn, bydd y gweithwyr cyntaf yn cael eu cofrestru ar gyfer cynllun pensiwn gweithle gan eu cyflogwr. Bydd llawer ohonynt yn cynilo mewn cynllun pensiwn am y tro cyntaf, gan fanteisio ar gyfraniad eu cyflogwr a sicrhau gwell incwm ar gyfer eu hymddeoliad.

Bydd y broses ddiwygio fawr hon yn golygu mai cynilion pensiwn yw'r norm. Fodd bynnag, wrth i fwy o bobl gynilo mewn cynllun pensiwn bydd mwy o gronfeydd pensiwn bach yn y system a bydd rhwystrau yn y system drosglwyddo wirfoddol bresennol yn atal pobl rhag mynd â'u cronfeydd gyda hwy pan fyddant yn gadael cyflogwr.

Byddai ein cyflawniadau yn cael eu tanseilio pe na bai pobl yn cadw llygad ar eu cynilion pensiwn ac felly'n colli allan ar incwm gwerthfawr ar gyfer eu hymddeoliad. Felly rydym am helpu pobl i fod yn rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu cynilion pensiwn a'u cefnogi. Rydym am sicrhau y gallant gronni cronfeydd sylweddol fel bod ganddynt swm boddhaol o incwm pan fyddant yn ymddeol. Ac rydym am fynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd yn y farchnad sy'n gysylltiedig â gweinyddu amryw gronfeydd pensiwn bach segur.

Dyna pam, ar 15 Rhagfyr 2011, y cyhoeddwyd ein dogfen ymgynghori *Ateb yr heriau o ran pensiynau'r gweithlu yn y dyfodol: gwella trosglwyddiadau ac ymdrin â chronfeydd pensiwn bach* (Cm 8184, Rhagfyr 2011). Daeth yr ymgynghoriad hwnnw i ben ar 23 Mawrth 2012. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r sawl a siaradodd â mi neu fy swyddogion yn ystod y cyfnod ymgynghori, a gymerodd ran mewn digwyddiadau ymgynghori ac a ymatebodd yn ffurfiol i'r ymgynghoriad.

Roedd yr ymgynghoriad yn nodi opsiynau ar gyfer diwygio a oedd yn amrywio o newidiadau bach i'r system bresennol i annog trosglwyddiadau, i'r broses o drosglwyddo cronfeydd bach yn awtomatig. Roeddwn yn falch o'r gefnogaeth sylweddol a gafodd yr achos dros newid gan ymatebwyr. Roeddent yn cydnabod y problemau sy'n gysylltiedig â gweinyddu miliynau o gronfeydd bach segur a'r canlyniadau gwael posibl i unigolion. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno na fyddai gwella'r fframwaith presennol ar gyfer trosglwyddiadau gwirfoddol yn mynd yn ddigon pell. Rwy'n cytuno. Fodd bynnag, tra fy mod yn ystyried proses ddiwygio, croesawaf weithgor newydd y diwydiant pensiynau a fydd hefyd yn ystyried sut y gellir gwneud gwelliannau i'r system drosglwyddo bresennol ar unwaith.

Er i lawer o ymatebwyr ffafrio'r broses o drosglwyddo cronfeydd bach i un cynllun cyfun neu fwy yn awtomatig, roeddent hefyd yn cydnabod na fyddai hyn o bosibl yn arwain at broses gyfuno wirioneddol. Rydym wedi ymchwilio i hyn ymhellach drwy ddatblygu'r Asesiad Effaith sydd hefyd yn cael ei gyhoeddi heddiw. Mae'r Asesiad hwn wedi dangos, gyda chynllun cyfun, y byddai angen terfyn cronfa isel, efallai tua £2,000, er mwyn osgoi gwyrho'r farchnad. Byddai hyn yn arwain at lawer llai o gyfuno i unigolion a byddai'n cyfyngu ar yr arbedion effeithlonrwydd gweinyddol gan y byddai gan lawer o unigolion o leiaf un gronfa weithredol ac un gronfa gyfun segur. Rwyf wedi dod i'r casgliad felly na fyddai defnyddio cynlluniau cyfun yn cyflawni ein hamcanion o ran diwygio.

Hoffwn barhau felly i weithio gyda'r sawl sydd â diddordeb mewn materion sy'n ymwneud â chronfeydd bach i ddeall sut y gallai ein hopsiwn mwy uchelgeisiol o drosglwyddo'r cronfeydd hyn yn awtomatig i'r cynllun cyflogwr newydd weithio. Rwyf wedi clywed barn ymatebwyr sef na ddylem redeg cyn y gallwn gerdded. Byddem felly yn dechrau gyda chronfeydd bach a gaiff eu creu drwy broses gofrestru awtomatig. Rwyf hefyd wedi clywed y pryderon ynghylch yr anfanteision i ddefnyddwyr, felly rwyf am ddeall y materion yn well cyn mynd ati i bennu terfyn maint ar gyfer cronfeydd y gellir eu trosglwyddo'n awtomatig. Mae angen i ni hefyd weithio gyda'r diwydiant pensiynau i ddeall rôl TG mewn unrhyw ddatrysiad.

4 Gwella trosglwyddiadau ac ymdrin â chronfeydd pensiwn bach

Yn y ddogfen ymgynghori, cyhoeddais hefyd y byddwn yn diddymu ad-daliadau gwasanaeth byr ar y cyfle deddfwriaethol cyntaf posibl. Fodd bynnag, rwyf wedi clywed pryderon ymatebwyr sy'n nodi bod achos dros ganiatáu ad-dalu cronfeydd sydd mor fach fel na fyddai'n werth eu trosglwyddo. Felly, fel hawddfrait o dan system drosglwyddo awtomatig, cynigïaf y dylid ymchwilio i weld a yw'n werth caniatáu i gynlluniau ad-dalu'r microgronfeydd hyn.

Tra ein bod yn gweithio ar yr holl faterion hyn, rwy'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol cyn gynted â phosibl i ganiatáu trosglwyddiadau awtomatig, diddymu ad-daliadau gwasanaeth byr a galluogi dull amgen o ad-dalu microgronfeydd.

Roedd rhai ymatebwyr yn cynnig y dylid defnyddio adnodd cyfuno rhithwir i helpu unigolion i weld eu holl gronfeydd pensiwn mewn un lle, ni waeth beth fo maint y gronfa. Mae hwn yn syniad diddorol a hoffwn ymchwilio iddo ymhellach gyda'r diwydiant pensïynau fel rhywbeth a allai gael ei ddatblygu ar y cyd â throsglwyddiadau awtomatig.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda phob un ohonoch er mwyn sicrhau llwyddiant y system gofrestru awtomatig mewn tirwedd bensiynau sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif.



Steve Webb AS

Y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau

Cyflwyniad

Ar 15 Rhagfyr 2011, gwnaethom gyhoeddi papur ymgynghori *Ateb yr heriau o ran pensiynau'r gweithlu yn y dyfodol: gwella trosglwyddiadau ac ymdrin â chronfeydd pensiwn bach*. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o 12 wythnos a daeth i ben ar 23 Mawrth 2012.

Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar sut y gellid gwella trosglwyddiadau er mwyn delio â chronfeydd pensiwn bach. Nododd dri opsiwn allweddol ar gyfer lleihau nifer y cronfeydd bach:

- gwelliannau i'r fframwaith rheoleiddio presennol er mwyn helpu i wneud trosglwyddiadau a gychwynnir gan aelodau yn haws ac yn llai drud;
- system drosglwyddo lle y gall cronfeydd pensiwn bach segur gael eu cyfuno mewn un cynllun cyfun neu fwy;
- system drosglwyddo lle y caiff cronfeydd pensiwn bach eu symud i'r cynllun cyflogwr newydd pan fydd yr unigolyn yn newid swyddi.

Roedd y ddogfen ymgynghori yn nodi ein cynigion ar gyfer diddymu ad-daliadau gwasanaeth byr hefyd.

Cafwyd 81 o ymatebion ysgrifenedig ffurfiol a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd â rhanddeiliaid a gweithdai a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr pensiwn, darparwyr TG a sefydliadau cyflogwyr a defnyddwyr. Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd ac a gymerodd ran yn y broses hon.

Ceir rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn Atodiad A. Ceir rhestr o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon yn Atodiad B.

Yn y ddogfen hon, ceir dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a nodir ein hystyriaethau, y dystiolaeth a ystyriwyd gennym a'n cynigion ar gyfer y dyfodol. Ochr yn ochr â'r ddogfen hon, rydym yn cyhoeddi Asesiad Effaith sy'n nodi effeithiau'r gwahanol opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â chynnydd yn nifer y cronfeydd pensiwn segur.

Mae'r ymateb hwn gan y Llywodraeth ar gael ar wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn www.dwp.gov.uk/consultations/2012/govt-response-small-pension-pots.shtml

Crynodeb gweithredol ac ymateb y Llywodraeth

O'r mis hwn, bydd system gofrestru awtomatig yn golygu y bydd miliynau o bobl yn cynilo mewn pensiwn preifat am y tro cyntaf. Bydd hyn yn golygu mai cynilion pensiwn yw'r norm. Bydd ein cynigion ar gyfer diwygio Pensiwn y Wladwriaeth¹ yn golygu y bydd pobl yn gwybod beth y gallant ei ddisgwyl gan y Wladwriaeth pan fyddant yn ymddeol. Bydd eu cynilion pensiwn preifat yn adeiladu ar y sylfaen cadarn hwn.

Rydym am ei gwneud hi'n haws i bobl wneud y penderfyniadau cywir ynghylch eu cynilion a gweithio tuag at sicrhau'r incwm y maent am ei gael pan fyddant yn ymddeol, felly mae'n hanfodol bod y dirwedd bensiynau yn darparu fframwaith cadarn ac addas er mwyn i'r system gofrestru awtomatig lwyddo. Nid ydym am weld cynilion unigolion yn cael eu tanseilio gan system lle mae pobl yn caffael llawer o gronfeydd pensiwn bach, y gallant eu colli neu byth eu cyfuno i sicrhau blwydd-dal da.

Mae angen datrysiad sy'n golygu y gall unigolion fod yn hyderus y bydd yr arian a gaiff ei gyfrannu ganddynt hwy a'u cyflogwr i'w pensiwn yn mynd tuag at eu hymddeoliad, ac na fydd mewn man lle na allant gael gafael arno neu'n cael ei golli yn y system. Rydym hefyd am i bobl allu cadw llygad ar eu cynilion pensiwn er mwyn iddynt allu gwybod faint y maent wedi'i gynilo a gwneud penderfyniadau hyddysg ynghylch eu cynilion pensiwn nawr ac yn y dyfodol. Dengys ymchwil nad oes gan un o bob chwech o bobl unrhyw syniad ble y cedwir eu pensiwn. Symud swyddi oedd y rheswm mwyaf o bell ffordd am hyn, gyda bron 70 y cant o'r rheini sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Olrhain Pensiwn yn nodi nad oeddent wedi cadw llygad ar eu pensiwn yn sgil symud i gyflogwr newydd². Gall yr incwm a gollir fod yn sylweddol ac, yn ôl yr amcangyfrifon, mae tua £3 biliwn o bensiynau nas hawliwyd³.

¹ A state pension for the 21st century (Cm 8053, 2011).

² Shury J a Koerbitz C, 2010, *The Pension Tracing Service: A quantitative research study to establish who is using the service, and their outcomes*, Adroddiad Ymchwil Rhif 697 yr Adran Gwaith a Phensiynau, tud. 7 a 25.


³ Shury J a Koerbitz C, 2010, *The Pension Tracing Service: A quantitative research study to establish who is using the service, and their outcomes*, Adroddiad Ymchwil Rhif 697 yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Os yw unigolion yn cadw llygad ar eu cynilion pensiwn, nid ydym am iddynt gael eu cosbi pan fyddant yn ceisio trosi cronfeydd pensiwn bach yn incwm, yn enwedig os na allant eu mân-gymudo i gyfandaliad (naill ai am eu bod wedi eu mân-gymudo eisoes neu am fod pensiwn buddiannau diffiniedig yn cael ei dalu iddynt sy'n mynd â hwy uwchlaw'r trothwy⁴). Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr blwydd-dal yn gofyn am gronfa o £5,000 neu £10,000 o leiaf, ac felly efallai na fydd gan unigolion â chronfa fach (na allant ei chyfuno) yr un mynediad i opsiwn marchnad agored, ac felly gyfraddau cystadleuol.

O ran y diwydiant, rydym am fynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd a sicrhau cynaliadwyedd tra'n osgoi gosod beichiau diangen ar fusnesau. Mae'r broses o weinyddu sawl cronfa pensiwn fach segur ar ran unigolyn yn aneffeithlon, a gall cadw cronfeydd bach segur fod yn amhroffidiol os na cheir digon o refferiw i dalu'r gost o weinyddu'r cronfeydd hynny.

Os na cheir unrhyw newid, amcangyfrifwn y bydd tua 50 miliwn o gronfeydd pensiwn cyfraniadau diffiniedig gweithle segur yn y system erbyn 2050, ac y bydd dros 12 miliwn o'r rhain o dan £2,000 (yn nhermau enillion 2012)⁵. Dyma'r her rydym yn ceisio mynd i'r afael â hi.

Ffigur 1: Amcanestyniad o gyfanswm nifer y cronfeydd segur o dan y trefniadau presennol



Canlyniadau'r ymgynghoriad

Roedd ein dogfen ymgynghori yn nodi'r achos dros newid ac yn amlygu'r ffaith, heb welliannau i'r system bresennol, ein bod yn disgwyl i filiynau o gronfeydd pensiwn bach segur gael eu creu o ganlyniad i broses gofrestru awtomatig.

⁴ Mae mân-gymudo ('trivial commutation') yn caniatáu i unigolion â chronfa pensiwn o lai na £2,000 gymryd y swm cyfan fel cyfandaliad, ar yr amod eu bod yn 60 mlwydd oed o leiaf. Rhaid i'r aelod wneud pob cyfryw gymudiad o fewn cyfnod o chwe mis cyn y bydd ganddo yr hawl i gael y pensiwn neu 13 mis ar ôl hynny. Pan nad yw cyfanswm buddiannau pensiwn unigolyn (gyda'i gilydd) yn fwy na £18,000, gall gymryd y swm cyfan fel cyfandaliad yn sgil mân-gymudo.

⁵ Gwaith modelu'r Adran Gwaith a Phensiynau gan ddefnyddio Pensim2.

Cyflwynwyd tri dull gweithredu gyda'r nod o sbarduno trafodaeth ynghylch sut y gallem wella'r system drosglwyddo er mwyn lleihau nifer y cronfeydd pensiwn bach segur. Roedd y dull gweithredu cyntaf yn awgrymu y dylid cyflwyno newidiadau i'r system drosglwyddo wirfoddol bresennol er mwyn annog aelodau i gychwyn trosglwyddiadau a gwneud y trosglwyddiadau hynny yn haws ac yn fwy effeithlon.

Nod y ddau arall oedd goresgyn syrthni unigolion drwy drosglwyddo cronfeydd bach mewn cynlluniau cyfraniadau diffiniedig yn awtomatig. Byddai'r ail ddull gweithredu yn dwyn ynghyd gronfeydd bach unigolyn mewn cynllun cyfun. Roedd a wnelo'r trydydd dull gweithredu â throsglwyddo cronfeydd pensiwn bach yn awtomatig pan fyddai unigolyn yn dechrau swydd newydd. Byddai'r cronfeydd hyn yn aros yng nghynllun y cyflogwr newydd ar ôl y broses gofrestru awtomatig.

Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau yn yr ymgynghoriad ynghylch hoff fodel yr ymatebwyr a materion yn cynnwys p'un a ddylai fod hawl i eithrio, rôl cyngor, sut i ddelio â'r stoc bresennol o gronfeydd pensiwn bach, maint y cronfeydd a ddylai gael eu trosglwyddo a sut i liniaru unrhyw risgiau i unigolion.

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb y Llywodraeth

Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai nifer y cronfeydd pensiwn bach yn cynyddu o dan y broses gofrestru awtomatig. Cydnabuwyd yn gyffredinol fod hyn yn aneffeithlon i weinyddwyr ac y gallai arwain at ganlyniadau gwael i unigolion a allai anghofio cadw llygad ar eu cynilion pensiwn. Gallai hyn olygu na fyddai ganddynt swm boddhaol o incwm pan fyddent yn ymddeol. Roeddent hefyd o'r farn y gallai cronfeydd lluosog fod yn rhwystr i ymgysylltiad unigolion.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno na fyddai gwneud gwelliannau i'r fframwaith trosglwyddo gwirfoddol presennol a mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau yn ddigon i sicrhau cydgyfnerthiad. Ac yn wir, mae ymchwil yn awgrymu'n gyson nad yw rhoi gwybodaeth neu anogaeth i bobl yn debygol o fod yn ddigon i'w hannog i wneud penderfyniadau gweithredol. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y byddai gwelliannau yn ddefnyddiol. Mae'r diwydiant pensiwn wedi creu gweithgor i ystyried y cwmpas ar gyfer y cyfryw welliannau.


Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn falch o gael y cyfle i weithio gyda'r diwydiant pensiynau i wneud gwelliannau i'r fframwaith trosglwyddo gwirfoddol presennol yn gynt.

Roedd dros 90 y cant o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion i drosglwyddo cronfeydd yn awtomatig. Pan ofynnwyd iddynt am y ddwy ffordd o wneud trosglwyddiadau awtomatig a ddisgrifiwyd yn y ddogfen ymgynghori, roedd tua 21 y cant yn ffafrio trosglwyddo i'r cynllun cyflogwr newydd, roedd 24 y cant yn cefnogi cynllun cyfun unigol, roedd 19 y cant yn cefnogi cynlluniau cyfun lluosog ac roedd 18 y cant yn cefnogi cynllun cyfun ond nid oeddent yn ffafrio'r model unigol na'r model lluosog. Nid oedd y gweddill yn ffafrio unrhyw un o'r dulliau gweithredu naill ai am eu bod yn cynnig yr un manteision yn eu barn hwy neu am nad oeddent o blaid trosglwyddiadau awtomatig.

Fodd bynnag, dangosodd gwaith ymchwil newydd ar ddefnyddwyr a gynhaliwyd gan Gymdeithas Yswirwyr Prydain⁶ fod 58 y cant o'r ymatebwyr am i'w cronfa symud gyda hwy wrth iddynt symud swyddi, o gymharu â dim ond 10 y cant oedd am i'w cronfa symud yn awtomatig i gynllun canolog, gyda'u cyflogwr newydd yn dechrau cronfa newydd iddynt. Dengys hyn yn Ffigur 2.

⁶ Cymdeithas Yswirwyr Prydain, 2012, *Time to Act: Tackling our Savings Problem and Building our Future*.

Ffigur 2: Dewisiadau ar gyfer ymdrin â chronfeydd pensiwn wrth newid cyflogaeth

Wrth ystyried barn ymatebwyr ar y model cyfun yn fanylach, roedd awgrymiadau, pe bai cynlluniau cyfun lluosog yn cael eu defnyddio, y gallent fod yn benodol i'r diwydiant. Fodd bynnag, yn absenoldeb unigolyn yn gwneud dewis gweithredol, byddai hyn naill ai, dros fywyd gwaith unigolyn, yn caniatáu i bob cyflogwr ddewis cynllun a ffefrir (gan arwain at nifer o gronfeydd cyfun a llai o gyfuno ar gyfer unigolion), neu byddai'n galw am ddull dyrannu ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod cronfeydd unigolyn yn mynd i'r un cynllun cyfun bob amser, gan wneud y broses yn fwy cymhleth.

Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod y gallai'r broses o greu cynllun cyfun wyro'r farchnad ac arwain at faterion yn ymwneud â chystadleuaeth. Mae gwaith pellach i ddatblygu'r Asesiad Effaith a gyhoeddwyd gyda'r ddogfen hon wedi gwella ein dealltwriaeth o'r materion hyn. Yn benodol, er mwyn osgoi gwro'r farchnad, byddai angen pennu terfyn isel (tua £2,000 yn ôl pob tebyg) ar gyfer cronfeydd sy'n gymwys i gael eu trosglwyddo'n awtomatig. Byddai hyn yn cyfyngu'n sylweddol ar nifer y cronfeydd a fyddai'n cael eu trosglwyddo, gan gyfyngu ar y broses gyfuno a gadael llawer o unigolion â nifer o gronfeydd segur. Ac ni waeth beth fyddai'r terfyn maint ar gyfer trosglwyddo cronfeydd yn awtomatig, byddai system gyfun yn golygu bod gan aelodau o leiaf un gronfa gyfun ochr yn ochr â'r gronfa yn eu cynllun presennol, gan ychwanegu at gyfanswm nifer y cronfeydd. Gyda'i gilydd, byddai'r ffactorau hyn yn golygu y byddai llai o waith cyfuno yn cael ei gyflawni drwy gynllun cyfun ac yn ei gwneud hi'n anos i bobl gronni cronfeydd sylweddol a sicrhau swm boddhaol o incwm ar gyfer eu hymddeoliad.


10 Gwella trosglwyddiadau ac ymdrin â chronfeydd pensiwn bach

Caiff hyn ei gadarnhau yn y dadansoddiad yn yr Asesiad Effaith cysylltiedig.

Mae'r opsiwn cynlluniau cyfun yn ei gwneud yn ofynnol i greu nifer fawr o gronfeydd cyfun newydd ochr yn ochr â'r cynllun y mae unigolion wrthi'n cyfrannu'n ato (Ffigur 3). Mae hyn yn arwain at o leiaf ddwy gronfa, gan olygu llai o gyfuno a llai o arbedion o ran adnoddau. Dim ond pan gaiff dwy gronfa neu fwy eu trosglwyddo i'r cynllun cyfun y cynhyrchir arbedion. Rhagwelwn na fydd hyn yn digwydd ac y caiff cost y trosglwyddiadau ei gwrthbwyso tan tua 15 mlynedd ar ôl dechrau'r trosglwyddiadau awtomatig ar y cynharaf, ac o bosibl nid tan yn llawer hwyrach na hynny.


O dan drosglwyddiadau awtomatig i'r cynllun cyflogwr newydd, byddai darparwyr yn wynebu costau prosesu yn ystod y blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, gydag amser, byddai'r rhain yn cael eu gwrthbwyso gan yr arbedion y byddent yn eu gwneud drwy weinyddu llai a llai o gronfeydd segur. Gellid dechrau gweld arbedion tua chwech neu saith mlynedd ar ôl dechrau trosglwyddiadau awtomatig. Bydd terfyn uwch o ran maint y cronfeydd yn arwain at fwy o gyfuno a mwy o arbedion yn y pen draw⁷.

Ffigur 3: Amcanestyniad o gyfanswm nifer y cronfeydd segur o dan gynllun cyfun â therfyn o £2,000 o ran maint y gronfa



⁷ Ar y cam datblygu polisi hwn, nid yw ein Hasesiad Effaith yn cynnwys amcangyfrifon o gostau'r datrysiadau TG y byddai eu hangen i hwyluso trosglwyddiadau awtomatig. Fodd bynnag, credwn y dylai'r costau fod yn gymharol fach o gymharu â'r manteision yn yr hirdymor.

Ffigur 4: Amcanestyniad o gyfanswm nifer y cronfeydd segur a drosglwyddir yn awtomatig i'r cynllun cyflogwr newydd



O ran trosglwyddo cronfeydd i gynllun cyflogwr newydd, rydym yn cydnabod bod cyfaddawd rhwng pennu terfyn maint uwch ar gyfer y cronfeydd a fydd yn arwain at fwy o gyfuno a phennu terfyn maint is a fydd yn lleihau'r risg y ceir effaith andwyol ar ddefnyddwyr (er enghraifft os na fydd y cynllun sy'n derbyn y gronfa yn perfformio cystal â'r cynllun y trosglwyddwyd y gronfa ohoni). Mae'r Asesiad Effaith yn dangos pedwar terfyn maint dangosol ar gyfer cronfeydd: £2,000, £5,000, £10,000 ac £20,000 (gweler Ffigur 4). Bydd angen gwneud gwaith pellach i bennu'r terfyn maint cychwynnol optimaidd ar gyfer cronfeydd a drosglwyddir yn awtomatig. Bydd angen i ni hefyd ystyried sut y gellid mynd ati i adolygu'r terfyn maint hwn yn y dyfodol.

Rydym hefyd wedi clywed pryderon am y ffaith bod defnyddwyr yn wynebu mwy o risg o anfantais yn sgil rhai cynlluniau a etifeddir y gall fod iddynt nodweddion arbennig, fel cyfraddau ffafriol i drosi i gynllun pensiwn pan fydd unigolyn yn ymddeol. Fodd bynnag, byddem yn ceisio lliniaru hyn drwy ystyried a allai rhai cynlluniau gael eu heithrio rhag trosglwyddiadau awtomatig.

Ymateb y Llywodraeth

Mae'r gwaith dadansoddi a wnaed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos y byddai model cyfun yn cyflawni cyfuniadau cyfyngedig i unigolion. Byddai angen pennu terfyn maint isel iawn i osgoi gwro'r farchnad a byddai hynny'n cyfyngu ar y gwaith cyfuno yn y pen draw. At hynny, byddai creu un neu fwy o gronfeydd cyfun segur yn aneffeithlon i'r diwydiant pensiynau. Nid yw'r opsiwn hwn yn llwyddo i gyflawni dau amcan allweddol o ran diwygio sef hyrwyddo ymgysylltiad aelodau a mynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd.

O gymharu, mae trosglwyddiadau awtomatig i'r cynllun cyflogwr newydd yn cymharu'n ffafriol yn erbyn ein hegwyddorion diwygio gyda buddiannau sylweddol i aelodau, ar yr amod y gellir rhoi mesurau diogelu effeithiol ar waith. Mae gwaith ymchwil diweddar ar ddefnyddwyr a gynhaliwyd gan Gymdeithas Yswirwyr Prydain wedi dangos mai dyma'r opsiwn a ffefrir gan unigolion. Mae gwaith dadansoddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos bod arbedion yn cael eu cyflawni'n gynt a bod mwy ohonynt yn y pen draw. Gallai'r buddiannau i'r diwydiant fod yn sylweddol hefyd os gellir lleihau cost trosglwyddiadau i lefel sy'n golygu eu bod yn rhatach na gweinyddu cronfeydd pensiwn segur.

At ei gilydd, ystyriwn mai trosglwyddiadau awtomatig i'r cynllun cyflogwr newydd sy'n cynnig y buddiannau mwyaf.

O ran y broses drosglwyddo awtomatig, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid y syniadau canlynol yn gyffredinol:

- y cyfle i eithrio rhag trosglwyddiad awtomatig, sy'n cyfateb i eithrio rhag cofrestru awtomatig;
- na ddylid rhoi cyngor ar drosglwyddo cronfeydd pensiwn bach yn awtomatig;
- bod trosglwyddo hawliau buddiannau diffiniedig yn awtomatig yn peri heriau sylweddol iawn ac felly na ddylid ei gynnwys;
- na ddylid cynnwys cronfeydd a etifeddwyd mewn trosglwyddiadau awtomatig.

Cododd rhai ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch amseru'r broses o roi trosglwyddiadau awtomatig ar waith a nodwyd na ddylid rhoi'r broses honno ar waith tan bod y cam cofrestru awtomatig wedi'i gwblhau. Cododd rhai ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch sut y byddai trosglwyddiad awtomatig yn gweithio pe bai gan yr unigolyn fwy nag un swydd neu pe bai bylchau mewn cyflogaeth.

Ymateb y Llywodraeth

Rydym am fynd ati i ystyried ymhellach, gyda phob parti â diddordeb, sut y gallai trosglwyddiadau awtomatig i'r cynllun cyflogwr newydd weithio a hoffem weld newid yn y maes hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon a nodwyd ynghylch amseru'r broses weithredu a'r heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â hi. Felly, rydym am ddatblygu model o drosglwyddiadau awtomatig sy'n cynnwys cronfeydd a grëwyd mewn cynlluniau cofrestru awtomatig yn unig.

Cytunwn na ddylai hawliau buddiannau diffiniedig a chronfeydd a etifeddwyd a grëwyd cyn y broses gofrestru awtomatig fod yn rhan o'r cwrpas ar y cam hwn. Cytunwn hefyd y dylai'r broses o drosglwyddo cronfeydd bach yn awtomatig fod yn fusnes digyngor ac y dylid sicrhau bod darpariaeth ar gyfer eithrio.

Cytunwn hefyd fod angen ystyried nifer o faterion ymhellach wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer diwygio, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r anfantais a berir i ddefnyddwyr, costau posibl i'r diwydiant, cyflogwyr a'r Llywodraeth, a chwestiynau ynghylch sut y byddai'r system yn gweithio o safbwynt pobl sydd â nifer o swyddi neu fylchau mewn cyflogaeth. Rydym yn cydnabod y bydd yn hollbwysig ein bod yn gweithio gyda phob parti â diddordeb i ddatblygu cynigion manylach a deall sut y gellir gweithredu ac ariannu'r cynigion hynny.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod rhai ymatebwyr wedi cynnig datrysiaidau na chawsant eu nodi yn y ddogfen ymgynghori gychwynnol.

Cafodd adnodd cyfuno rhithwir (a oedd yn galluogi unigolion i weld eu holl fuddiannau pensiwn mewn un man) ei ystyried yn ffordd effeithiol o hyrwyddo ymgysylltiad aelodau. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod yr adnodd yn ddatrysiaid ynddo'i hun, tra roedd eraill o'r farn ei fod yn paratoi'r ffordd ar gyfer y broses drosglwyddo awtomatig, neu'n ategu'r broses honno.

Un o'r cynigion amgen oedd cynllun i gael yr hawl i drosglwyddo cronfa segur gymwys unwaith y bydd yr aelod wedi gadael cyflogaeth gysylltiedig. Roedd yr ymatebydd o'r farn y byddai cynllun o'r fath yn galluogi'r diwydiant pensiynau i drosglwyddo cronfeydd amhroffidiol gyda'r risg leiaf posibl y byddai hynny'n peri anfantais i ddefnyddwyr. Gallai fod cynllun diodyn fel dewis olaf a fyddai'n gyfrifol am gymryd cronfeydd oddi wrth unrhyw ddarparwr er, awgrymwyd hefyd na fyddai angen cynllun o'r fath o bosibl gan y gallai marchnad ddatblygu i gymryd y cronfeydd hyn.

Cynigiwyd y modelau hyn fel dewisiadau amgen posibl i'r broses o drosglwyddo cronfeydd segur yn awtomatig yn y byrdymor.

Ymateb y Llywodraeth

Hoffem weithio gyda'r diwydiant i ystyried potensial adnodd rhithwir ymhellach, yn enwedig i helpu'r sawl â chronfeydd mwy o faint i weld eu cynilion mewn un man. Gallai'r adnodd rhithwir alluogi'r sawl sydd ag amrywiaeth o gronfeydd pensiwn mwy o faint i ymgysylltu â hwy. Fodd bynnag, byddai unrhyw adnodd rhithwir yn cael ei ystyried gennym yn rhywbeth sy'n ychwanegol at y trosglwyddiadau awtomatig ar gyfer cronfeydd bach.

Credwn fod model a fyddai'n rhoi'r hawl i gynlluniau drosglwyddo cronfeydd segur yn peri heriau sylweddol. Yn benodol, gallai arwain at ddiffyg cyfuno gwirioneddol wrth i gronfeydd segur gael eu dadleoli o un cynllun i'r llall. At hynny, byddai'r dewis i drosglwyddo'r cronfeydd yn nwylo'r darparwr yn hytrach na'r unigolyn. Byddai hyn yn arwain at ddiffyg eglurder i unigolion o ran p'un a fyddai eu cronfa yn cael ei throsglwyddo ai peidio. Mae cwestiwn hefyd ynghylch pa mor fforddiadwy y byddai'r opsiwn hwn yn y tymor canolig pe bai angen darparwr dewis olaf. O ystyried yr holl ffactorau hyn, nid ydym yn cynnig y dylai cynlluniau gael yr hawl i drosglwyddo cronfeydd segur.

Ni ofynnwyd cwestiynau ynghylch diddymu ad-daliadau gwasanaeth byr, ond awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai microgronfeydd gael eu had-dalu o dan unrhyw drosglwyddiad awtomatig. Cafwyd safbwyntiau amrywiol ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â microgronfeydd gyda symiau cyn iseled â £50 yn cael eu crybwyll.

Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i ddiddymu ad-daliadau gwasanaeth byr ar y cyfle deddfwriaethol cynharaf posibl, ond hoffem ystyried ymhellach y syniad o ganiatáu ad-daliadau microgronfeydd.

O ystyried hyn, rydym wedi dechrau casglu tystiolaeth gan y diwydiant pensiynau a chynrychiolwyr cyflogwyr am gostau a buddiannau dulliau gweithredu posibl gyda'r bwriad o ddatblygu, os yn bosibl, ad-daliad microgronfa a fydd yn goresgyn y broblem a wynebwr pan fo cronfeydd bach iawn yn costio mwy i'w trosglwyddo na'u gwerth.

I grynhoi, rydym yn falch bod yr ymgynghoriad hwn wedi cynhyrchu cymaint o drafodaeth a syniadau newydd, fel yr adnodd rhithwir a chaniatáu i gynlluniau 'wthio' cronfeydd. Rydym wedi ystyried rhinweddau pob un o'r syniadau hyn yn ofalus ac rydym yn awyddus i weithio gyda'r diwydiant i ystyried rhai o'r materion hyn ymhellach.

ISBN 978-1-78153-114-3

(h) Hawlfraint y Goron 2012

Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau

Gorffennaf 2012

www.dwp.gov.uk/cymraeg